**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Awst 2023

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

Ysgrifennaf yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder yn cael ei gynnal ar 12 Medi. Bwriadwyd cynnal y cyfarfod hwn yn wreiddiol ar 24 Mai ond fe'i gohiriwyd oherwydd nad oedd modd i'r Arglwydd Bellamy KC, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, fod yn bresennol.

Mae disgwyl i'r cyfarfod hybrid gael ei gadeirio gan yr Arglwydd Bellamy KC a byddaf i'n cynrychioli Llywodraeth Cymru o bell. Mae'r cyfarfod yn debygol o ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Bil Dioddefwyr, Carchardai, Adfer y Llysoedd, Cymorth Cyfreithiol, a Chyfraith yr UE a Ddargedwir.

Byddaf yn rhoi diweddariad yn dilyn y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.